



Valuation Office
Agency

Asiantaeth y
Swyddfa Brisio

Asiantaeth y Swyddfa Brisio – Cynllun Iaith Gymraeg

Adroddiad Monitro Blynyddol

10 Tachwedd 2022

(Tachwedd 2021 i Hydref 2022)

Rhagarweiniad

Mae'n ofynnol i Asiantaeth y Swyddfa Brisió (VOA), fel sefydliad cyhoeddus sy'n gweithredu yng Nghymru, baratoi Cynllun Iaith Gymraeg (CIG) yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i Asiantaeth y Swyddfa Brisió lunio adroddiad monitro blynyddol i asesu'r cynnydd rydym yn ei wneud wrth gyflawni'r ymrwymadau yn ein CIG. Mae'r Adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod o fis Tachwedd 2021 i ddiwedd mis Hydref 2022.

Crynodeb o'r cyflawniadau

Ar gyfer y cyfnod adrodd hwn, rydym wedi gwneud y canlynol:

- Penodi Cyfieithydd a Swyddog y Gymraeg, a gwnaeth yr unigolyn hwnnw ddechrau yn ei rôl ym mis Tachwedd 2021.
- Gweithredu ar argymhelliad Comisiynydd y Gymraeg i ailsefydlu Gweithgor Cymraeg Asiantaeth y Swyddfa Brisió, yn dilyn cyflwyno Adroddiad Monitro 2020-21.
- Mynd ati i hyrwyddo ein CIG a'r ymrwymadau ar draws y busnes.
- Cyhoeddi ein Hadroddiad Monitro Blynyddol ynghylch y Cynllun Iaith Gymraeg (h.y. ein Hadroddiad ar gyfer 2020-21) ar ein gwefan am y tro cyntaf.
- Adolygu a sicrhau bod y negeseuon cydnabod awtomataidd a anfonwyd oddi wrth ein mewnflychau sy'n delio â chwsmeriaid yn ddwyieithog.
- Annog a hyrwyddo'r rhwydweithiau Cymraeg a'r cyfleoedd i ymarfer Cymraeg ymhlith ein haelodau staff.
- Sefydlu sesiynau ymarfer Cymraeg gyda charfan dysgu Cymraeg y Gwasanaeth i Gwsmeriaid.
- Sicrhau bod unrhyw negeseuon sy'n benodol i Gymru ar lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol fel Twitter wedi'u ffactora mewn i'n cynlluniau cyfathrebu ac wedi'u paratoi'n ddwyieithog.
- Mwy o ryngweithio cyfrwng Cymraeg gydag Awdurdodau Lleol (ALLau) gan Dîm Ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol (LAET) Asiantaeth y Swyddfa Brisió.

Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg

Gofynion o ran adroddiadau i Gomisiynydd y Gymraeg:

- *Gofynnwn i chi adrodd am wybodaeth ynghylch cadw at amserlen y cynllun.*
- *Gofynnwn i chi gadarnhau pa gamau gweithredu a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a pha gamau y mae angen gwaith pellach arnynt i'w cyflawni.*

Cyfieithydd a Swyddog y Gymraeg

Ym mis Tachwedd 2021, ymunodd Cyfieithydd a Swyddog y Gymraeg penodedig (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel y 'Swyddog') ag Asiantaeth y Swyddfa Brisió, ac

mae wedi'i leoli mewn swyddfa yng Nghymru. Fel y nodwyd yn ein CIG, mae cyfrifoldebau allweddol y Swyddog yn cynnwys hyrwyddo ein hymrwymiaadau o fewn y Cynllun yn ogystal â monitro ac adrodd am gydymffurfiaeth Asiantaeth y Swyddfa Brisio i Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r Swyddog hefyd yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer cydweithwyr sydd â chwestiynau am ein hymrwymiaadau yn y Cynllun neu unrhyw ymholiadau cyffredinol mewn perthynas â'r Gymraeg. Ers ymuno ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio, mae'r Swyddog wedi gwneud y canlynol:

- Cyflwyno ei hun i amrywiaeth o gydweithwyr ar draws Asiantaeth y Swyddfa Brisio i hyrwyddo'r rôl a phwysigrwydd ein darpariaeth Gymraeg.
- Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth ar draws Asiantaeth y Swyddfa Brisio o'r CIG a'n hymrwymiaadau, drwy gyflwyno mewn gwahanol gyfarfodydd a phostio deunyddiau cysylltiedig ar y fewnwyd. Ceir rhagor o wybodaeth o dan *'Prif ffrydio'r Gymraeg' – Dysgu a hyfforddiant Cymraeg, gan gynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith*.
- Ailsefydlu Gweithgor y Gymraeg fel yr argymhellwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Darperir rhagor o wybodaeth o dan *'Hunanreoleiddio'*.
- Ymuno ag amryw o weithgorau, prosiectau, a chyfarfodydd ar draws Asiantaeth y Swyddfa Brisio i sicrhau bod y Gymraeg a'n cwsmeriaid Cymraeg yn cael eu hystyried o'r cyfle cyntaf.
- Hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael i'r staff ddysgu ac ymarfer Cymraeg. Darperir rhagor o wybodaeth o dan *'Prif ffrydio'*.
- Ymuno â grwpiau rhwydweithio Cymraeg, gan gynnwys Pwyllgor Cymraeg Adrannau'r Llywodraeth (Pwyllgor CALL), y Rhwydwaith Iaith Gymraeg, Rhwydwaith Iaith Gymraeg Gwasanaeth Sifil Prydain (ar gael i siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio i'r Gwasanaeth Sifil yn Lloegr yn ogystal ag yng Nghymru) a chyfarfodydd y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (Llywodraeth Cymru). Drwy ymuno'n rhagweithiol â'r rhwydweithiau hyn a chyfrannu at y trafodaethau, mae'r Swyddog wedi creu partneriaethau gwaith newydd ar ran Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Mae hyn wedi rhoi cyfle i rannu arferion da ac i gynorthwyo a datblygu ein gwasanaethau Cymraeg yn y dyfodol.
- Delio ag amrywiaeth o geisiadau cyfieithu, yn arbennig ceisiadau ag amserlenni tynn i sicrhau bod ein cwsmeriaid Cymraeg yn cael negeseuon pwysig o fewn yr un amserlen â chwsmeriaid Saesneg. Er bod y Swyddog yn gallu cynorthwyo gyda chyfieithiadau, mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn parhau i gael cyfieithiadau drwy ei Chanolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg (WLCSC) a thrwy Uned Gymraeg CThEF.
- Adolygu a phrawfddarllen cyfieithiadau Cymraeg mewnol at ddiben sicrhau ansawdd.

Un o brif amcanion y Swyddog yn ystod blwyddyn gyntaf y swydd oedd amlygu a hyrwyddo pwysigrwydd ein CIG. Mae angen rhagor o waith i hyrwyddo a

gwreiddio ein CIG ond mae'r rhyngweithio cychwynnol gan gydweithwyr dros y flwyddyn ddiwethaf wedi dangos yn sicr fod ein hymrwymiadau o ran y Gymraeg a phwysigrwydd ein Cynllun yn ystyriaeth gadarn. Bydd y Swyddog yn parhau i ddatblygu'r ymwybyddiaeth hon dros y blynyddoedd nesaf.

Wedi cyhoeddi Adroddiad Monitro Blynyddol 2020-21 ynghylch y Cynllun Iaith Gymraeg

Yn unol ag ymrwymiad 7 o dan 'Monitro'r Cynllun' yn ein CIG, cyhoeddodd Asiantaeth y Swyddfa Brisio ei Hadroddiad Monitro Blynyddol ynghylch y Cynllun Iaith Gymraeg (WLSAMR) am y tro cyntaf ym mis Ebrill 2022, a hynny ar gyfer 2020-21. Gall aelodau'r cyhoedd ddarllen ein WLSAMR drwy ddilyn y linc ar waelod tudalen ein CIG cyhoeddedig– [Cynllun Iaith Gymraeg Asiantaeth y Swyddfa Brisio \(Ebrill 2021\)](#) . Gall cydweithwyr yn Asiantaeth y Swyddfa Brisio hefyd gael at y CIG a'r Adroddiad Monitro Blynyddol drwy'r dudalen bwrpasol ar gyfer yr iaith Gymraeg ar y fewnwyd.

Tîm Ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol

Fel rhan o'i waith parhaus, mae Tîm Ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol (LAET) Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn parhau i weithio ochr yn ochr â'r 22 o Awdurdodau Lleol (ALLau) yng Nghymru. Mae LAET wedi parhau'n rhagweithiol i ddarparu'r cyfathrebiadau y mae'n eu rhoi i ALLau Cymru yn ddwyieithog (lle bo hynny'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol). Mae LAET wedi cynyddu ei gyfathrebu dwyieithog dros y flwyddyn ddiwethaf drwy ddarparu copïau dwyieithog o gofnodion gweithgorau ALLau a/neu unrhyw gyflwyniadau cysylltiedig. Mae LAET yn parhau i ddarparu ei gylchlythyrau dwyieithog deufisol i ALLau.

Ar hyn o bryd mae LAET yn ehangu ei ryngweithio â ALLau yng Nghymru drwy gynnig cyfarfodydd un i un, ac mae LAET wedi gofyn i'r ALLau drwy gyfrwng pa iaith yr hoffent gynnal y cyfarfodydd hyn.

Gwasanaeth Prisiwr Dosbarth (DVS)

Dros y cyfnod adrodd, mae'r DVS wedi parhau i sicrhau bod yr holl ohebiaeth a dogfennau rheoleiddio perthnasol yn cael eu diweddarau a'u cyfieithu i'r Gymraeg yn unol â'r fersiynau Saesneg. Mae'r DVS yn croesawu cyfathrebiadau cyfrwng Cymraeg gan gwsmeriaid a phartneriaid gweithredol ac mae wedi delio ag achosion drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n ymwneud ag 20 corff sy'n cynnwys Syrfewyr, Awdurdodau Lleol, Peirianwyr a Chontractwyr.

Uned Brisio Ranbarthol (RVU) Cymru a Gorllewin Lloegr

Mae'r RVU sy'n ymdrin â'n gweithrediadau yng Nghymru wedi parhau i ddelio â chwsmeriaid sy'n dymuno ymgysylltu â ni drwy gyfrwng y Gymraeg. Er mwyn rheoli ein gweithrediadau yng Nghymru, mae'r Gymraeg wedi'i chynnwys ar gofrestr risg yr Uned sy'n cael ei hadolygu o leiaf bob chwarter. Mae gwybodaeth am nifer yr aelodau staff yn RVU Cymru a Gorllewin Lloegr sydd â sgiliau Cymraeg i'w gweld o dan yr is-bennawd 'Galw ac adnoddau Cymraeg'. Fodd bynnag, rydym yn falch o roi

gwybod dros y cyfnod adrodd fod aelod o'r WLCSC wedi ymuno â RVU Cymru a Gorllewin Lloegr i ddelio ag apeliadau Treth Gyngor a gwaith cynnal a chadw.

Negeseuon cydnabod awtomataidd

Mae gan Asiantaeth y Swyddfa Brisió gyfanswm o 7 cyfeiriad e-bost ar gyfer cysylltu â chwsmeriaid sy'n berthnasol i'n gweithrediad yng Nghymru. Mae'r cyfeiriadau dan sylw yn anfon negeseuon cydnabod awtomataidd bob tro y mae cwsmer yn cyflwyno ymholiad. Yn ystod y cyfnod adrodd, gwnaethom ddarganfod diffyg cysondeb, h.y. ni chafodd pob neges awtomataidd ei hanfon yn ddwyieithog. Mae'r tîm sy'n gyfrifol am reoli'r mewnflychau bellach wedi sicrhau bod yr holl negeseuon awtomataidd yn cael eu hanfon yn ddwyieithog yn unol â'r ymrwymadau perthnasol yn ein CIG. Mae'r negeseuon cydnabod awtomataidd gan ein mewnflychau ar gyfer cwynion gan gwsmeriaid a chyswllt ag Awdurdodau Lleol hefyd wedi'u diwygio i sicrhau bod neges ddwyieithog yn cael ei hanfon ar ôl derbyn gohebiaeth. Nid yw ein mewnflychau ar gyfer Gohebiaeth ASau a Gwasanaethau Prisiwr Dosbarth (DVS) yn defnyddio negeseuon cydnabod awtomataidd. Fodd bynnag, os bydd cwsmer yn anfon unrhyw ohebiaeth gychwynol i'r cyfeiriadau hyn yn y Gymraeg, bydd y timau sy'n gyfrifol am fonitro'r mewnflychau yn ymateb yn Gymraeg.

Adolygiad o Ohebiaeth Cwsmeriaid

Mae'r Adolygiad o Ohebiaeth Cwsmeriaid (CCR) yn brosiect parhaus i wella'r ffordd rydym yn ysgrifennu at ein cwsmeriaid. Un o dasgau'r adolygiad oedd i'w gwneud hi'n haws i'n cwsmeriaid ddeall beth sydd angen iddynt ei wybod a'i wneud. Mae hyn yn cynnwys adolygu a gwella ein templedi safonol; helpu cydweithwyr i gymhwyso safonau ysgrifennu diwygiedig; a datblygu ein proses sicrhau ansawdd i adlewyrchu'r safonau hyn. Mae ein Swyddog Cymraeg wedi bod yn rhan o'r adolygiad ers ymuno â'r Asiantaeth ym mis Tachwedd 2021. Mae'r adolygiad wedi ystyried gohebiaeth Gymraeg o'r trafodaethau cychwynol ac mae'n adolygu gohebiaeth Gymraeg a Saesneg er mwyn sicrhau cysondeb. Yn ogystal ag adolygu'r ohebiaeth, mae tîm yr Adolygiad o Ohebiaeth Cwsmeriaid wedi cyhoeddi canllaw gohebiaeth fewnol. Mae materion Cymraeg wedi'u hystyried yn yr arweiniad hwn, gan gynnwys cysylltiadau a gwybodaeth am 'Cymraeg Clir'. Bydd diweddariadau pellach ar yr Adolygiad o Ohebiaeth Cwsmeriaid yn cael eu cynnwys fel y bo'n briodol yn Adroddiad Monitro Blynnyddol 2022-23 ynghylch y Cynllun Iaith Gymraeg.

Ymchwil i Brofiad Cwsmeriaid

Yn ystod y cyfnod adrodd, mae timau 'Strategaeth a Deall Cwsmeriaid' (S&CI) ac 'Ymchwil Gymdeithasol' Asiantaeth y Swyddfa Brisió wedi bod yn gweithio ar brosiect ymchwil newydd, sy'n canolbwyntio'n benodol ar brofiad cwsmeriaid. Bydd yr ymchwil sy'n cwmpasu Cymru yn canolbwyntio ar ddau grŵp o gwsmeriaid, sef Talwyr Treth Gyngor yng Nghymru, ac Awdurdodau Bilio Cymru.

Mae'r Ymchwil wedi ei rhannu'n ddau gam. Mae Cam 1 yn ansoddol, yn cynnwys cyfweiliadau â chwsmeriaid dros y ffôn; bydd Cam 2 yn cynnwys arolwg meintiol o gwsmeriaid. Dechreuodd Cam 1 ym mis Awst 2022 a bydd yr arolwg yng Ngham 2

yn mynd yn fyw yng ngeaf 2022/23, gyda disgwyl y bydd canfyddiadau'n cael eu darparu erbyn dechrau 2023.

Cafodd y gwaith ymchwil gwirioneddol ei dendro i gyflenwyr allanol. Cyfeiriodd y ddogfen dendro at ymrwymiad 23 o dan '*Gweithio mewn Partneriaeth a Chaffael*' yn ein CIG – h.y. bod y cynigydd llwyddiannus wedi cytuno i ystyried ein CIG, a phwysigrwydd ein darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg wrth ymdrin â chwsmeriaid yng Nghymru.

Mae'r Ymchwil i Brofiad Cwsmeriaid sydd ar y gweill hefyd yn tynnu sylw at waith y Tîm o ran sicrhau bod Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn cydymffurfio ag ymrwymiad 21 yn ein CIG o dan '*Ymwneud â'r cyhoedd yng Nghymru mewn ffyrdd eraill*'. Roedd yr e-bost cychwynnol a anfonwyd at gyfranogwyr posibl yng Nghymru yn eu gwahodd i optio i mewn neu allan o'r ymchwil yn e-bost dwyieithog. Roedd yr e-bost hefyd yn gofyn i'r cyfranogwyr a oedden nhw'n dymuno bwrw ymlaen ag unrhyw arolygon ymchwil yn ystod Camau 1 a 2 yn Gymraeg.

Mae'r ymchwil yn dangos sut mae ein cwsmeriaid Cymraeg a'n CIG wedi cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith cynllunio a chyflawni'r gwaith ymchwil o'r cychwyn cyntaf. Lle bo'n briodol, rydym wedi gofyn i'n cyfranogwyr Cymraeg sut brofiad oedd defnyddio ein gwasanaethau Cymraeg, a byddwn yn bwydo hyn yn ôl i'r meysydd busnes perthnasol.

Ystadau

Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn parhau i weithredu mewn 4 swyddfa yng Nghymru:

- Caerdydd - Tŷ William Morgan.
- Caerfyrddin - Parc Dewi Sant.
- Abertawe - y Ganolfan Ddinesig.
- Wrecsam - Tŷ Regent.

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, rhwng Tachwedd 2021 a Hydref 2022, roedd cydweithwyr yn gallu dychwelyd i'n swyddfeydd i weithio. Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio (yn unol â threfniadau gwaith y Gwasanaeth Sifil yn ehangach) wedi mabwysiadu patrwm gweithio hybrid sy'n caniatáu hyblygrwydd i gydweithwyr weithio'n rhannol yn ein swyddfeydd a gweithio gartref yn rhannol. Ers ailagor ein swyddfeydd yng Nghymru yn llawn ym mis Ebrill 2022, mae cydweithwyr wedi gallu rhyngweithio â'i gilydd wyneb yn wyneb, gan gynnwys y rhai sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg. Drwy glywed y Gymraeg yn cael ei defnyddio yn ystod cyfarfodydd a/neu mewn cyd-destunau cymdeithasol o amgylch y swyddfeydd, mae'r iaith yn cael ei phrif ffyrddio'n organig yn y gweithle.

Ym mis Medi 2022, roedd gennym 19 o bobl, o'r tîm gweithrediadau a'r meysydd busnes corfforaethol sydd wedi'u lleoli yn ein swyddfeydd yng Nghymru, sy'n defnyddio neu sy'n gallu defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gwaith.

Mae ystadegau pellach ar ein siaradwyr Cymraeg a'r rhai sydd â sgiliau Cymraeg yn cael eu trafod dan '*Prif ffrydio'r Gymraeg*'.

Darparu gwasanaethau i'r cyhoedd

Cyfathrebu dros y ffôn

Gofynion o ran adroddiadau i Gomisiynydd y Gymraeg:

- *Nifer y galwadau Cymraeg sy'n dod i'r prif rif ffôn neu'r ganolfan alwadau yn ystod y cyfnod adrodd.*
- *Nifer y galwadau Saesneg sy'n dod i'r prif rif ffôn neu'r ganolfan alwadau yn ystod y cyfnod adrodd*

Mae'r Ganolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg (WLCSC), sydd wedi'i lleoli yn ein swyddfa yng Nghaerdydd, yn parhau i weithredu ein llinell Gymraeg. Ar 2 Awst 2022, symudodd Canolfannau Gwasanaeth Cwsmeriaid Asiantaeth y Swyddfa Brisio i blatfform teleffoni newydd. Gall y system newydd ddarparu mwy o ddata a gwell ddealltwriaeth o alw gan gwsmeriaid.

Rhwng 1 Tachwedd 2021 a 30 Medi 2022, cafodd Asiantaeth y Swyddfa Brisio 15,349 o alwadau drwy brif linell gyswllt cwsmeriaid Cymru. O'r rheiny, roedd 782 o gwsmeriaid wedi dewis y llinell Gymraeg. Yn dilyn dewis y llinell Gymraeg, cyflwynir negeseuon awtomataidd i gwsmeriaid gan gynnwys gwybodaeth am ein gwasanaethau ar-lein a'n gwefan. Mae rhai cwsmeriaid yn penderfynu terfynu eu galwad yn dilyn y negeseuon hyn, gan ein bod un ai wedi llwyddo i ateb eu hymholiad gyda'r neges awtomataidd, neu wedi eu harwain at ffordd arall o gael gafael ar yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Aeth 572 o'r galwadau hyn ymlaen i siarad gydag ymgynghorydd Cymraeg.

Cyfieithu

Mae tîm yr WLCSC yn parhau i ddelio â cheisiadau cyfieithu mewnol o dan 1,000 o eiriau. Mae cyfieithiadau dros 1,000 o eiriau neu gymhleth eu natur yn cael eu prosesu gan Uned Gymraeg CThEF. Mae'r WLCSC yn parhau i weithio'n agos gydag Uned Gymraeg CThEF ac yn cyfarfod bob mis i drafod unrhyw broblemau neu ddiweddariadau. Fel y crybwyllwyd yn Adroddiad 2020-21, oherwydd dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau cyfieithu, mae ceisiadau cyfieithu ag amserlenni tynn – e.e., ar gyfer cyhoeddiadau allanol neu linellau i'w cymryd – yn cael eu cyfieithu gan Swyddog y Gymraeg Asiantaeth y Swyddfa Brisio.

Rhwng 1 Tachwedd 2020 a 30 Medi 2022, cafodd tîm yr WLCSC 360 o geisiadau cyfieithu.

309 wedi'u prosesu gan WLCSC Asiantaeth y Swyddfa Brisio

30 wedi'u prosesu gan Uned Gymraeg CThEF

21 cais annilys

Hyd at fis Mai 2022, mae'r WLCSC wedi nodi'r math o geisiadau cyfieithu a ddaeth i law. Cyfieithwyd cyfanswm o 175 o ddogfennau hyd at fis Mai 2022 gan gynnwys:

- Gohebiaeth Aelodau Seneddol a gohebiaeth Aelodau o'r Senedd
- Gohebiaeth a chyhoeddiadau Awdurdodau Lleol
- Cyhoeddiad / geiriad i'w ddefnyddio ar ein gwefan
- Gohebiaeth gan gwsmeriaid
- Gohebiaeth yn ymateb i gwsmeriaid
- Ffurflenni cyswllt ar-lein

Prif ffrydio'r Gymraeg

Staffio a recriwtio

Porth Swyddi'r Gwasanaeth Sifil

Ers mis Mehefin 2022, mae Porth Swyddi'r Gwasanaeth Sifil yn gallu caniatáu i adrannau o'r llywodraeth ddarparu fersiwn Gymraeg o hysbysebion swyddi. Mae'r porth ei hun hefyd wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg, sy'n caniatáu i ymgeiswyr Cymraeg weld manylion swyddi a gwneud cais yn Gymraeg os ydynt yn dewis gwneud hynny. Mae'r porth hefyd yn caniatáu i unrhyw ymgeiswyr yn y dyfodol gofrestru ar gyfer hysbysebion swyddi yn Gymraeg os ydynt wedi ei nodi fel eu dewis iaith. Mae hyn yn gam cadarnhaol tuag at ddarparu gwasanaeth cyfartal i ymgeiswyr Cymraeg ac ymgeiswyr Saesneg. Bydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn archwilio'r swyddogaeth hon ymhellach i hysbysebu a denu siaradwyr Cymraeg i ymgeisio am swyddi amrywiol yng Nghymru neu lle mae sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol.

Galw ac adnoddau Cymraeg

Mae gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio restr o siaradwyr Cymraeg a/neu'r rheiny sydd â sgiliau Cymraeg ychwanegol ar draws ein gweithrediad yng Nghymru. Mae'r rhestr yn eitemeiddio lle maent wedi'u lleoli – h.y. yn ein swyddfeydd yng Nghymru neu yn Lloegr, neu os ydynt yn gweithio gartref. Cafodd y rhestr hon ei chasglu ym mis Gorffennaf 2022 (rhestr flaenorol o 2019/ 20) ac fe'i defnyddir i nodi nifer y siaradwyr Cymraeg a allai ddefnyddio eu sgiliau yn y gwaith, ac i werthuso a oedd gennym ddigon o adnoddau i ddarparu ein gwasanaethau Cymraeg. Mae'r rhestr hefyd yn rhoi'r gallu i nodi sut y gallem alw, o bosibl, ar gydweithwyr o'r rhestr i gynorthwyo â thasgau Cymraeg y tu allan i'w swyddi uniongyrchol pe bai angen. Yn sgil ein hymholiadau, gwnaethom nodi 28 o siaradwyr Cymraeg a/neu'r rhai sydd â sgiliau Cymraeg ychwanegol yn y timau canlynol:

- Grŵp y Prif Brisiwr (CVG)
- Uned Brisio Ranbarthol (RVU) Cymru a Gorllewin Lloegr
- Canolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg (WLCSC)

Dangosodd ein rhestr o alw ac adnoddau Cymraeg fod gennym nifer digonol o siaradwyr Cymraeg yn CVG a'r RVU. Fodd bynnag, mae'r rhestr hefyd wedi amlygu bod angen gwaith ychwanegol i chwilio am gyfleoedd pellach i recriwtio siaradwyr Cymraeg a graddedigion Cymraeg ychwanegol i gynnal a datblygu ein gwasanaethau Cymraeg ymhellach o fewn y meysydd penodol hyn. Ers casglu data 2022 ynghylch galw ac adnoddau Cymraeg, ymunodd person ychwanegol gyda sgiliau Cymraeg â thîm RVU Cymru a Gorllewin Lloegr ym mis Medi 2022.

Dangosodd y rhestr hefyd nad oedd gennym ddigon o adnoddau ar adeg casglu'r data (h.y. ym mis Gorffennaf 2022) yn yr WLCSC. Amlygodd y rhestr felly yr angen i gynyddu ein hadnoddau Cymraeg o fewn y ffrwd fusnes hon ac i ehangu ein hyblygrwydd ymhellach a chryfhau ein cynlluniau wrth gefn erbyn y galw yn y dyfodol. Ar hyn o bryd mae gennym yr adnoddau cywir i fodloni galw cyfredol gyda'r defnydd o staff dros dro, ond mae gwaith ychwanegol yn mynd yn ei flaen i sicrhau bod gennym ateb staffio mwy parhaol i sicrhau bod ein gwasanaethau'n sefydlog yn y dyfodol. Gweler yr is-bennawd nesaf am ragor o wybodaeth a diweddariadau am lefelau staffio ein WLCSC. Hoffai ein Swyddog Cymraeg ddiweddarau'r rhestr yn flynyddol i olrhain unrhyw newidiadau ac i helpu i nodi unrhyw risg bosibl i'n gwasanaeth Cymraeg. Hefyd, drwy gynnal rhestr o alw ac adnoddau Cymraeg yn flynyddol, y gobaith yw y bydd ein hadnoddau Cymraeg mewnol yn cael eu monitro'n rheolaidd gan y timau perthnasol.

Canolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg

Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn parhau i ddelio â galwadau cwsmeriaid Cymraeg a cheisiadau cyfieithu mewnol drwy ein Canolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg (WLCSC) sydd wedi'i lleoli ein swyddfa yng Nghaerdydd, sef Tŷ William Morgan.

Mae'r tîm WLCSC wedi wynebu heriau o ran lefelau staffio dros y cyfnod adrodd, ers yr adroddiad diwethaf ym mis Tachwedd 2021, oherwydd bod pobl wedi gadael Asiantaeth y Swyddfa Brisio a bod eraill wedi cael dyrchafiad mewnol.

Ers mis Gorffennaf 2022, mae Swyddog y Gymraeg wedi bod yn helpu Pennaeth y CSC a'r tîm Adnoddau Dynol, ynghyd ag aelodau eraill o dîm y CSC, i archwilio a dod o hyd i atebion o ran recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg i'r maes busnes hanfodol hwn a datblygu cynllun recriwtio hirdymor. Ym mis Hydref 2022, roedd gan yr WLCSC 6 aelod o staff i ateb y galw presennol. Fodd bynnag, mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn parhau â'r trafodaethau i gynyddu'r lefelau staffio yn y maes hwn.

Ym mis Gorffennaf 2022, roedd gan yr WLCSC 4 aelod parhaol. Wedi hynny, sicrhodd aelod arall o'r tîm ddyrchafiad mewnol ac ymunodd â thîm yr RVU ym mis Medi 2022 gan sicrhau gallu dwyieithog ychwanegol yn y maes busnes hwn.

Dysgu a hyfforddiant Cymraeg, gan gynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.

Mae creu rôl benodedig Swyddog y Gymraeg yn ffordd ymarferol o brif ffrydio'r iaith Gymraeg o fewn Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Mae'r Swyddog wedi cyflwyno eu hun yn rhagweithiol i wahanol dimau a gweithgorau i godi ymwybyddiaeth ac i ledaenu'r neges am y rôl a phwysigrwydd ein CIG.

Dros y cyfnod adrodd mae'r Swyddog hefyd wedi codi ymwybyddiaeth o'n CIG a'r iaith Gymraeg drwy roi cyflwyniadau i'r timau a'r grwpiau canlynol:

- Grŵp Cyngori ar Brofiad Cwsmeriaid
- Uwch Dîm Arwain Strategaeth a Thrawsnewid
- Diwrnod i Ffwrdd ar gyfer Strategaeth a Thrawsnewid (fel rhan o gyflwyniad i Dîm Polisi Cymru Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn ehangach)
- Tîm Polisi, Cyfreithiol a Datgelu
- Prif Swyddog Gweithredol / Pwyllgor Gweithredol (rhannwyd Adroddiad Monitro Blynyddol 2020-21 ynghylch y Cynllun Iaith Gymraeg a phapur cryno a oedd yn cynnwys cefndir a gwybodaeth am ein CIG a'n hymrwymiaadau)

Drwy gyflwyno a darparu gwybodaeth i'r grwpiau ac yn y cyfarfodydd a grybwyllir uchod, mae'r CIG a'n hymrwymiaadau wedi'u codi a'u gweld gan grŵp ehangach o gydweithwyr yn Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn ogystal ag uwch gydweithwyr. Y gobaith yw bod yr wybodaeth wedi'i rhannu gyda'r timau perthnasol ar draws Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Yn ogystal â'r timau mewnol a'r grwpiau y sonnir amdanynt uchod, mae'r Swyddog hefyd wedi cyflwyno i grŵp o randdeiliaid Llywodraeth Cymru (LIC) i godi ymwybyddiaeth o'r rôl newydd o fewn Asiantaeth y Swyddfa Brisio ac o CIG yr Asiantaeth. Cafodd ein Hadroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer 2020-21 ynghylch y Cynllun Iaith Gymraeg hefyd ei rannu'n uniongyrchol gyda rhanddeiliaid LIC cyn ei gyhoeddi. Mae'r Swyddog hefyd wedi sefydlu cysylltiadau â Rheolwr Cyfathrebiadau ac Ymgysylltu Cymraeg LIC er mwyn sicrhau aliniad, lle bo'n briodol, o unrhyw derminoleg sy'n cael ei chyfieithu i'r Gymraeg a'i chynnwys mewn cyfathrebiadau allanol.

Yn ogystal â mynychu a chyflwyno mewn cyfarfodydd grŵp, cyhoeddodd y Swyddog neges ddwyieithog ar Ddydd Gŵyl Dewi, fel blog ar hafan mewnwyd Asiantaeth y Swyddfa Brisio ac fel neges a ddosbarthwyd i gydweithwyr yn ein swyddfeydd yng Nghymru ar 1 Mawrth 2022. Roedd y blog yn codi ymwybyddiaeth o ddiwrnod cenedlaethol Cymru, ac yn cyflwyno'r Swyddog a manylion am y cyfleoedd sydd ar gael i ddysgu Cymraeg drwy'r cyrsiau 'Cymraeg Gwaith', yn ogystal â sut i ymuno â grŵp rhwydweithio Cymru a grŵp rhwydweithio Cymraeg y Gwasanaeth Sifil. Mae'r Swyddog hefyd wedi darparu erthygl i gylchlythyr misol Prif Swyddog Gweithredu (COO) Asiantaeth y Swyddfa Brisio, a chlip fideo yn cyflwyno rôl y Swyddog yn sioe deithiol fewnol Asiantaeth y Swyddfa Brisio.

Dros y cyfnod adrodd mae cydweithwyr yn Asiantaeth y Swyddfa Brisio, sy'n gweithio yn ein swyddfeydd yng Nghymru ac sydd wedi nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg neu wedi mynegi diddordeb mewn dysgu neu ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg, wedi cael gwybod am gyfleoedd i roi hyn ar waith. Gwahoddwyd cydweithwyr i gymryd rhan yn sesiynau tandem Cymraeg y Gwasanaeth Sifil, lle mae pobl sydd wedi cofrestru yn cael euparu ag eraill sydd wedi nodi'r un lefel o hyfedredd Cymraeg i drefnu sgysiau anffurfiol â'i gilydd. Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio hefyd wediparu â sesiynau rhithiol wythnosol Uned Gymraeg CThEF, sef 'Coffi Cymraeg'. Mae dwy sesiwn ar gael, un i ddechreuwyr, a'r llall i'r rhai sydd ar lefel uwch neu rugl. Mae'r sesiynau yn gyfle i'r rhai sy'n cymryd rhan sgwrsio'n hamddenol â'i gilydd a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Oherwydd eu natur anffurfiol, ni chynhelir unrhyw gofnodion presenoldeb ar gyfer y sesiynau hyn.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi parhau i hyrwyddo'r rhaglen Cymraeg Gwaith a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig cyrsiau dysgu Cymraeg ar-lein i staff. Hyd at fis Hydref 2022, roedd 31 aelod o staff Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi'u cofrestru ar y rhaglen.

Yn 2020-21, gwnaethom adrodd am aelodau o'r CSC yng Nghaerdydd a oedd wedi gwirfoddoli i gymryd rhan mewn carfan beilot 'Cymraeg Gwaith'. O'r tîm gwreiddiol dim ond hanner sydd ar ôl. Yn anffodus, nid oedd y nifer a oedd am ymuno â'r ail garfan CSC (fel y crybwyllwyd yn yr Adroddiad diwethaf, sef Adroddiad 2020-21) yn ddigonol. Fodd bynnag, mae gweddill yr aelodau o'r garfan gyntaf wedi gwneud cynnydd. Mae'r Swyddog wedi gweithio'n agos gyda'r unigolion hyn ac wedi gwrandao ar eu pryderon. Mynegodd y garfan ei bod yn ei chael hi'n anodd neilltuo amser i ganolbwyntio ar y cwrs 'Cymraeg Gwaith', felly trafododd y Swyddog â rheolwyr CSC i ganiatáu amser penodol yn yr wythnos waith i'r garfan fynd ar drywydd y dysgu ar-lein. Mynegodd y garfan hefyd ei bod yn ei chael hi'n heriol rhoi'r hyn a ddysgwyr ar y cwrs ar waith yn gyffredinol. Ers mis Mai 2022, mae'r garfan wedi bod yn mynychu sesiynau ymarfer Cymraeg drwy MS Teams /wyneb i wyneb gyda'r Swyddog bob yn ail wythnos. Mae'r sesiynau ymarfer yn gyfle i'r garfan ymarfer ymadroddion llafar ac ynganu ac i ofyn cwestiynau. Mae'r cyfarfodydd anffurfiol hyn hefyd yn gyfle i'r Swyddog rannu cysylltiadau ac awgrymiadau defnyddiol gyda'r garfan. Unwaith y bydd y garfan wedi cwblhau'r unedau dysgu perthnasol, bydd Tîm Dysgu a Datblygu'r CSC yn gwerthuso'r llwyddiant yn y buddsoddiad hwn i benderfynu ar unrhyw gamau nesaf yn y maes hwn.

Y wefan a gwasanaethau ar-lein

Gofynion o ran adroddiadau i Gomisiynydd y Gymraeg:

- *Canran o dudalennau gwe a gwasanaethau ar-lein y sefydliad sydd ar gael yn y Gymraeg;*
- *Diweddariad ar y cynnydd a wnaed i wella / cynyddu cynnwys Cymraeg y wefan yn ystod y cyfnod adrodd;*

- *Gwybodaeth am y broses a ddefnyddir i sicrhau bod y cynnwys presennol, diweddariadau a chynnwys newydd yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg*

Wrth baratoi at adrodd yn erbyn y gofynion rhestredig uchod, gweithiodd Swyddog y Gymraeg (WLO) gyda Thîm Cyhoeddi Digidol (DPS) yr Asiantaeth. Yn ystod y cyfnod hwn, wynebon ni ambell rwystr y tu hwnt i'n rheolaeth a effeithiodd ar yr wybodaeth yr oeddem yn gallu ei chasglu, felly gwnaethom fethu â bodloni gofynion adrodd Comisiynydd y Gymraeg fel y rhestrwyd uchod. DPS Asiantaeth y Swyddfa Brisió a Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth (GDS) sy'n gyfrifol am reoli tudalennau gwe a gwasanaethau ar-lein yr Asiantaeth. Bu tîm DPS yn chwilio eu hunain ar dudalennau gwe a gwasanaethau ar-lein Cymraeg yn eu cylch gwaith, gan ddarparu'r dystiolaeth ganlynol:

- Cyfanswm o 1071 tudalen ar GOV.UK sy'n cael eu rheoli gan dîm DPS. O'r tudalennau hyn, mae'r togll ar gyfer cyfieithiad Cymraeg llawn ar gael ar 10 tudalen.
- Cyfanswm o 51 tudalen o'r 1071 sy'n cynnwys dogfennau sydd wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg (3 ohonynt yn dudalennau sy'n cynnwys y togll). Mae hyn yn golygu, er efallai na fydd modd cyfieithu'r cyfan o'r dudalen, fod fersiynau Cymraeg o'r dogfennau perthnasol y bydd angen i ddefnyddwyr gael mynediad atynt, eu cyflwyno ac ati.

Cafodd yr wybodaeth a ddarparwyd gan GDS uchod ei chasglu drwy chwilio am 'Welsh' yn y teitl, felly ceir tudalennau nad oeddent ymhlith canlyniadau'r chwiliad penodol hwn. Rydym wedi dysgu y byddai'n ofynnol chwilio â llaw er mwyn cael cyfrif cywir o nifer y tudalennau a'r cyhoeddiadau Cymraeg a reolir gan GDS ar GOV.UK.

O ran sicrhau bod y cynnwys presennol, diweddariadau, a chynnwys newydd yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg, ers ymuno ag Asiantaeth y Swyddfa Brisió ym mis Tachwedd 2021 mae ein Swyddog Cymraeg wedi bod mewn trafodaethau ynglŷn â datblygu rhagor o wasanaethau ar-lein Cymraeg. Y gobaith yw y bydd gwasanaethau dwyieithog ychwanegol yn fyw yn ystod cyfnod adrodd 2022/23.

Mae'r adran hon yn tynnu sylw at ein hangen fel Asiantaeth i ymchwilio ymhellach i sut y gallwn reoli ac olrhain ein presenoldeb iaith Gymraeg ar-lein yn well wrth baratoi ar gyfer yr adroddiad monitro blynyddol nesaf. Bydd ein Swyddog Cymraeg yn trafod gofynion adrodd Comisiynydd y Gymraeg mewn mwy o fanylder gyda GPS, GDS a rhanddeiliaid eraill Asiantaeth y Swyddfa Brisió.

Cwynion / Mynegi Anfodlonrwydd

Gofynion o ran adroddiadau i Gomisiynydd y Gymraeg:

- *Nifer y cwynion a ddaeth i law yn ystod y cyfnod adrodd ynghylch cydymffurfiaeth y sefydliad â'r Cynllun Iaith Gymraeg*

Ni ddaeth i law unrhyw gŵynion nag achosion o fynegi anfodlonrwydd ynghylch cydymffurfiaeth Asiantaeth y Swyddfa Brisio â'r CIG rhwng Tachwedd 2021 a Hydref 2022. Daeth cwyn i law yn Gymraeg ond cafodd hyn ei dynnu'n ôl gan nad oedd yn berthnasol i Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Fodd bynnag, rydym wedi ystyried meysydd lle gellid gwella'r broses gŵynion. Mae'r materion a nodwyd gennym bellach wedi'u datrys a'u hadeiladu mewn i'n prosesau ar gyfer ymdrin ag unrhyw gŵynion yn ymwneud a'r Iaith Gymraeg yn y dyfodol.

Hunanreoleiddio

Gofynion o ran adroddiadau i Gomisiynydd y Gymraeg:

- *Manylion y trefniadau a'r gweithdrefnau y mae'r sefydliad wedi'u mabwysiadu i'w gynorthwyo i hunanreoleiddio'n effeithiol.*

Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi cryfhau ei threfniadau a'i gweithdrefnau yn rhagweithiol i'w chynorthwyo i hunanreoleiddio'n effeithiol drwy wneud y canlynol:

1. Gweithio gyda Chynllun Iaith Gymraeg (CIG) gyfredol o fis Ebrill 2021, y disgwylir iddo gael ei adolygu erbyn 1 Ebrill 2023 fan bellaf, fel y nodir yn y CIG:

Adolygu a diwygio'r Cynllun

Bydd y Cynllun yn cael ei adolygu bob dwy flynedd, a bydd yr adolygiad cyntaf yn cael ei gynnal erbyn 1 Ebrill 2023 fan bellaf. Yn ogystal, bydd diwygiadau i'r Cynllun hwn yn cael eu hystyried yn gynt nag 1 Ebrill 2023 os bydd newidiadau i'r gofynion deddfwriaethol neu i'r ffordd y mae ein gwasanaethau'n cael eu darparu yng Nghymru. Ni fydd unrhyw ddiwygiadau i'r Cynllun hwn heb gymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg o flaen llaw.

2. Recriwtio Cyfieithydd a Swyddog y Gymraeg llawn amser ym mis Tachwedd 2022

3. Ailsefydlu Gweithgor y Gymraeg ym mis Awst 2022. Mae'r gweithgor yn cynnwys trawstoriad o gynrychiolwyr o faesydd busnes allweddol Asiantaeth y Swyddfa Brisio, gan gynnwys:

- Cyfarwyddiaeth Darparu Gwasanaethau:
 - Gwasanaethau Rheoli Newid a Gwelliant Parhaus
- Cyfathrebu Corfforaethol:
 - Tîm Cyfathrebu
 - Cwynion
 - Tîm Ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol
- Canolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid
- Grŵp y Prif Brisiwr

- Grŵp Pobl:
 - Tîm Adnoddau Dynol
 - Amrywiaeth, Cynhwysiant a Llesiant
 - Ystadau
 - Dysgu a Datblygu
 - Rhaglen Graddedigion
- Grŵp y Prif Swyddog Gweithredu:
 - Uned Brisio Ranbarthol (RVU) Cymru a Gorllewin Lloegr
 - Darparu Gwasanaethau
- Grŵp Strategaeth a Thrawsnewid:
 - Trawsnewid Systemau Busnesau
 - Polisi
 - Strategaeth a Mewnwelediad Cwsmeriaid

Yn unol â'r cylch gorchwyl, amcanion Gweithgor y Gymraeg yw:

- Trafod sut mae'r gwahanol ffrydiau busnes yn gweithio tuag at gyflawni'r ymrwymadau yn CIG Asiantaeth y Swyddfa Brisio gan gynnwys unrhyw brosiectau neu ddatblygiadau yn y dyfodol.
- Codi unrhyw broblemau neu bryderon yn ymwneud â'r ymrwymadau a amlinellir yn y CIG a sut i oresgyn a gweithio tuag at ddatrys y problemau hyn.
- Defnyddio Gweithgor y Gymraeg fel mecanwaith ar gyfer casglu mewnwelediad i'w fwydo i mewn i Adroddiad Monitro Blynyddol Asiantaeth y Swyddfa Brisio ynghylch y Cynllun Iaith Gymraeg.
- 'Cynorthwyo ein Cydlynnydd Iaith Gymraeg [h.y. Swyddog] i hyrwyddo'r Cynllun a'n hymrwymadau o dan Ddeddf Iaith Gymraeg 1993 ar draws yr Asiantaeth' - fel y nodir yn y Cynllun Iaith Gymraeg.
- Yn unol â'r uchod, codi proffil y Gymraeg yn Asiantaeth y Swyddfa Brisio fel bod ein hymrwymadau o dan ein Cynllun Iaith Gymraeg yn cael eu cydnabod, eu deall yn well, a'u hystyried yn weithredol ar draws ein gweithrediadau yng Nghymru.
- Croesawu mewnbwn gan gydweithwyr sydd â'u barn a'u syniadau eu hunain ynglŷn â sut y gallwn wella a datblygu ein cynnig Cymraeg yn fewnol ac yn allanol.

Cynhaliodd Gweithgor y Gymraeg ei gyfarfod cyntaf ym mis Awst a gwnaeth drafod pwysigrwydd sefydlu'r gweithgor, nodau'r gweithgor, ac unrhyw ddiweddariadau cysylltiedig â'r iaith Gymraeg i'w bwydo i mewn i'r Adroddiad hwn. Hefyd, er mwyn tynnu sylw at bwysigrwydd sefydlu Gweithgor y Gymraeg, daeth y Swyddog Gosod Safonau a Chydymffurfiaeth o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i'r cyfarfod cyntaf a rhoi cyflwyniad yno.

Nod Gweithgor y Gymraeg yw cwrdd bob 3 mis i fonitro ein datblygiadau a chodi unrhyw faterion sy'n ymwneud â gweithredu'r CIG.

Cynllun gweithredu

Gofynion o ran adroddiadau i Gomisiynydd y Gymraeg:

- *Os yw cynllun iaith y sefydliad yn cynnwys cynllun gweithredu gyda chamau gweithredu parhaus, rhowch ddiweddariad o ran cyflawni'r cynllun gweithredu*

Yn unol â'n CIG presennol (fel y'i cyhoeddwyd ym mis Ebrill 2021) nid oes gennym gynllun gweithredu penodol. Fodd bynnag, mae'r CIG yn cynnwys cyfres o amcanion o ran sut rydym yn anelu at weithredu a monitro ein hymrwymiaidau. Dyma'r amcanion a nodwyd yn y CIG ynghyd â diweddariadau perthnasol ynghylch cyflawni'r amcanion hyn:

Gweithredu'r Cynllun

- *Cyhoeddi'r Cynllun ar ein tudalen fewnrwyd ac yn lansio hÿb arweiniol pwrpasol ar gyfer y Gymraeg;*

Diweddariad: Mae ein CIG wedi'i gyhoeddi ar y fewnrwyd (yn ddwyieithog) ar ein tudalen 'Gwasanaeth Cymraeg' benodedig. Mae ein Hadroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer 2020-21 ynghylch y Cynllun Iaith Gymraeg hefyd ar gael ar y dudalen hon.

- *Cyhoeddi'r Cynllun ar ein tudalen we gov.uk yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cynllun neu ymrwymiaidau unigol lle bynnag y bo hynny'n briodol i annog pobl i ddefnyddio gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.*

Diweddariad: Mae ein CIG wedi'i gyhoeddi ar ein tudalen we ar Gov.uk yn Gymraeg a Saesneg ynghyd â'n Hadroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer 2020-21 ynghylch y Cynllun Iaith Gymraeg.

- *Cynhyrchu pecyn cymorth i reolwyr ar gyfer gwasanaethau cyfieithu ac arweiniad ynghylch pryd y dylid cyfieithu dogfen.*

Diweddariad: Rydym wedi cyhoeddi bwletinau gwybodaeth ar ein mewnrwyd ynghylch y broses gyfieithu a'r camau y mae'n rhaid i gydweithwyr eu cymryd os ydynt am gyfieithu unrhyw ohebiaeth / dogfennau. Mae angen rhagor o waith i ddatblygu a chynhyrchu pecyn cymorth i reolwyr ar gyfer gwasanaethau ac arweiniad cyfieithu'n benodol, ac i adolygu'r bwletinau gwybodaeth.

- *Cynorthwyo ein Cydlynnydd Iaith Gymraeg i hyrwyddo'r Cynllun a'n hymrwymiaidau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar draws yr Asiantaeth.*

Diweddariad: Rydym wedi ailsefydlu Gweithgor y Gymraeg i helpu a chynorthwyo ein Swyddog Cymraeg i hyrwyddo'r CIG a'n hymrwymiaidau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar draws Asiantaeth y Swyddfa Brisiol.

- *Cynnal gweithdai i staff er mwyn rhoi hyfforddiant ac arweiniad ar y Cynllun Iaith Gymraeg newydd.*

Diweddariad: Mae ein Swyddog Cymraeg wedi cyflwyno mewn cyfarfodydd grŵp gwahanol i ddarparu gwybodaeth ac arweiniad am ein CIG. Mae'r Swyddog hefyd wedi cynhyrchu erthyglau mewnol am ein CIG. Mae angen rhagor o waith yn y maes hwn i gynnal gweithdai staff i roi hyfforddiant ac arweiniad ar ein CIG.

Monitro'r CIG

- *Bydd ein Cydlynnydd Iaith Gymraeg yn gyfrifol am fonitro cyflawniad Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn erbyn y Cynllun hwn. Bydd yn diweddarau Pwyllgor Gweithredol Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn rheolaidd, yn gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau, ac yn arwain ar y gwaith o gynhyrchu adroddiad monitro blynyddol o'n gwasanaethau Cymraeg.*

Diweddariad: Ers ymuno â'r Asiantaeth ym mis Tachwedd 2022 mae ein Swyddog Cymraeg wedi bod yn monitro sut mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn gweithio tuag at gyflawni'r ymrwymadau yn ei CIG ac mae wedi arwain ar y gwaith o gynhyrchu'r adroddiadau monitro blynyddol ynghylch y Cynllun Iaith Gymraeg. Mae Pwyllgor Gweithredol (ExCom) Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn cael yr adroddiad monitro blynyddol ynghylch y Cynllun Iaith Gymraeg cyn ei gyflwyno i'w hysbysu am ein datblygiadau ym maes yr iaith Cymraeg. Mae'r Pwyllgor Gweithredol hefyd yn cael diweddariad gan y Swyddog yn dilyn unrhyw adborth sydd gan Gomisiynydd y Gymraeg am yr Adroddiad ac unrhyw gamau pellach y mae angen eu cymryd. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i ddatblygu ac archwilio cynllun strwythuredig i roi diweddariadau i'r Pwyllgor Gweithredol yn amlach.

- *Byddwn yn ystyried unrhyw welliannau angenrheidiol i wella ein gwasanaeth ar gyfer ein cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg a hynny mewn ymgynghoriad â Chomisiynydd y Gymraeg.*

Diweddariad: Dim diweddariadau sylweddol ar gyfer y cyfnod rhwng Tachwedd 2021 - Hydref 2022

- *Byddwn yn rhoi adroddiad i Gomisiynydd y Gymraeg ar ein perfformiad yn erbyn yr ymrwymadau yn y Cynllun hwn. Cynhyrchir yr adroddiad hwn yn flynyddol a bydd ar gael i'r cyhoedd.*

Diweddariad: Rydym wedi parhau i adrodd yn flynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg drwy ein Hadroddiad Monitro Blynyddol ynghylch y Cynllun Iaith Gymraeg. Un garreg filltir bwysig oedd cyhoeddi ein hadroddiad ar gyfer 2020-21 ym mis Ebrill 2022 ar ein gwefan a'n mewnwyd.

Wedi'i adolygu a'i gymeradwyo gan:

Kirsten McFarlane

Cyfarwyddwr, Strategaeth, Polisi a Thrawsnewid | Asiantaeth y Swyddfa Brisio

7 Tachwedd 2022